**Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi gynhaliwyd ar y 4 Mawrth, 2008 yn Neuadd Dyfi, Aberdyfi**

**YN BRESENNOL**

**Y Cynghorydd W. Bracewell – Cadeirydd**
**Y Cynghorydd David Richardson – Is-gadeirydd**

Y Cynghorwyr Robert J. Hughes, Anne Lloyd Jones, Morgan L. Vaughan, (Cyngor Gwynedd), Y Cyng. Brian Bates, (Cyngor Cymuned Aberdyfi), Mr Desmond George (Clwb Hwylio Aberdyfi), Mr Dylan Evans (Clwb Rhwyfo Aberdyfi), Mr Nigel Willis (Clwb Cychod Aberdyfi)

Sylwedyddion: Y Cyng. Trevor Roberts (Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw)

Swyddogion

| | | |
|---|---|---|
| Mr Barry Davies | - | Pen Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig |
| Mr Paul Edwards | - | Harbwr Feistr Aberdyfi |
| Mrs Glynda O'Brien | - | Swyddog Pwyllgor |
| Mrs. Mererid Watt | - | Cyfieithydd |

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr W. Roy Owen, Alun Wyn Evans (Cyngor Gwynedd), Mr Alf Bowen (Partneriaeth Aberdyfi), Mr Roger Lawson-Mole (Siambr Fasnach Aberdyfi), Dr. Jones Morris (Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog).

1. **COFNODION**

**Cyflwynwyd:** Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi gynhaliwyd ar y 30 Hydref 2007.

**Penderfynwyd: Derbyn a chymeradwyo'r cofnodion fel rhai cywir yn ddarostyngedig i newid y geiriau "badau dŵr personol" i "gychod pŵer" yn Eitem 6 Unrhyw Fater Arall paragraff (c).**

**2. MATERION YN CODI O'R COFNODION**

**Eitem 6 (a) - Aelodaeth**

**Adroddwyd:** Gan y Pen Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig ei fod wedi cysylltu â Mr Fothergill yn ei wahodd i fod yn aelod o'r Pwyllgor Ymgynghorol hwn pryd y bu iddo ddatgan ei ddymuniad ar lafar ond hyd yma ni dderbyniwyd cadarnhad ysgrifenedig swyddogol ganddo fel bo modd anfon rhaglenni iddo.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

3. **<u>ADRODDIAD Y SWYDDOG MORWROL</u>**

**Cyflwynwyd:** Adroddiad y Swyddog Morwrol, Mr Barry Davies ar weithgareddau harbwr Aberdyfi gyda chyfeiriad arbennig at y canlynol:-

(i) Ffioedd a Thaliadau
(ii) Trwydded Fferi
(iii) Cyllidebau
(iv) Mordwyo
(v) Staff
(vi) Gwobr Traeth
(vii) Cwch Rheoli'r Harbwr.
(viii) Materion Cyffredinol

**Adroddwyd:** (a) Gan y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig

(i) yng nghyswllt **ffioedd a thaliadau** mai'r penderfyniad ydoedd bod y taliadau i'r bobl hynny sy'n preswylio yn barhaol yng Ngwynedd yn cynyddu o 4% gyda'r cynnydd i'r bobl hynny sy'n preswylio tu allan i Wynedd yn 5%. Nodwyd bod ffioedd a thaliadau lansio a chofrestru Cychod Pŵer a Cherbydau Dwr Personol wedi cynyddu ar gyfartaledd o 7%. Y cynnydd cyffredinol yn nharged incwm yr Uned Forwrol yn 2008/09 yw £62,040 gan gynyddu targed incwm cyffredinol yr Uned Forwrol i £2,070,880.

Teimlai sawl aelod y dylai'r awdurdod fuddsoddi mwy yn Harbwr Aberdyfi a theimlent ymhellach bod De Gwynedd yn colli allan yn sgil datblygiadau eraill ac oherwydd hyn 'roedd economi'r ardal yn dioddef a hyderir y bydd hyn yn cael sylw i'r dyfodol.

'Roedd aelodau'r Clwb Cychod Aberdyfi yn tristau o weld cynnydd yn y ffioedd unwaith eto a theimlwyd nad oedd y cyfleusterau yn adlewyrchu'r pris ac yn arbennig diffyg lleoedd cyfleus i lansio. Mewn ymateb, anghytunodd y Swyddog Morwrol o ystyried nad oedd y pris wedi cynyddu cymaint â hynny mewn tair blynedd. Tra'n derbyn y profwyd anawsterau hefo Badau Dŵr Personol yn y gorffennol, teimlwyd bod rheolaeth ar y dŵr wedi gwella'n sylweddol. 'Roedd buddsoddiad wedi ei gyfeirio i'r Harbwr hwn dros y blynyddoedd ac efallai y gall y Cyngor Cymuned ymchwilio i weld faint o fudd 'roedd yr ardal wedi elwa o weithgareddau'r Harbwr. Ychwanegwyd bod sefyllfa ariannol y Cyngor yn argyfyngus drwy orfod chwilio am £4m o arbedion arainnol yn y flwyddyn hon a hefyd dros y dair blynedd ganlynol. 'Roedd y codiad yn y ffioedd yn bris isel iawn o'i gymharu â'r arbedion oedd yn wynebu'r Cyngor a theimlwyd mai teg ydoedd i berchnogion cychod wneud cyfraniad bychan tuag at economi'r ardal a chyfrannu at gostau rhedeg yr harbwr a thraethau cyfagos.

Nodwyd siom yr Aelodau nad oedd Aberdyfi yn ymddangos ar restr blaenoriaeth y Cyngor ar gyfer denu arian Ewropeaidd.

(ii) mewn perthynas â **thrwydded fferi,** er nad oedd yr Uned Forwrol wedi derbyn cais am "Drwyddedau Perchnogion" i gychod sy'n gweithredu yn Nyfroedd Categoredig Harbwr Aberdyfi, tynnwyd sylw'r Aelodau at ofynion trwyddedau o'r fath ynghyd â'r offer diogelwch.

(iii) Yng nghyswllt **cyllidebau**, ‘roedd toriadau corfforaethol yn cael effaith ar holl wasanaethau’r Cyngor ac felly bu’n rhaid blaenoriaethu gweithgareddau. Tynnwyd sylw’r aelodau at y diffyg o £4,413 yn nharged incwm Harbwr Aberdyfi ac y byddai 2008/09 yn flwyddyn heriol i’r Uned Forwrol ac yn arbennig i Harbwr Aberdyfi ac Abermaw. Pwysleisiwyd y byddai angen goresgyn y gorwariant a’r diffyg mewn incwm, yn enwedig o gofio hinsawdd ariannol bresennol sy’n wynebu’r Cyngor.

(iv) yng nghyswllt **mordwyo,** nodwyd bod mwyafrif y cymhorthion wedi aros ar eu safle. Tynnwyd sylw bod cost o newid y bwi Starboard tua £3,700 heb gynnwys cost y gadwyn, angor a lleoli’r bwi yn ei le. Roedd cost cynnal a chadw cymhorthion mordwyo yn cynyddu o flwyddyn i flwyddyn.

(v) yng nghyswllt **gwobrau traeth,** nodwyd siom na fyddai’r Uned Forwrol mewn sefyllfa i gyflwyno cais am wobr traeth i draeth Aberdyfi yn 2008 oherwydd nid oedd ansawdd y dŵr ymdrochi yn cyrraedd y safon gofynnol. Ategwyd siom yr aelodau yn hyn o beth, ac y dylai Dwr Cymru ymchwilio i’r pibellau dŵr sydd wedi torri yn ardal Stryd yr Eglwys rhag ofn bod y rhain yn cyfrannu tuag at ansawdd y dŵr ymdrochi. ‘Roedd tueddiad i garthion gael eu golchi fyny mewn gwynt gorllewinol ac efallai y byddai o fudd i gysylltu ag Asiantaeth yr Amgylchedd gan ofyn iddynt ymchwilio i’r mater yn ogystal â chynnal mesuriadau carthion amaethyddol.

(vi) prynwyd **cwch rheoli’r Harbwr** yn ddiweddar gyda’r gobaith o’i gweithredu yn yr harbwr cyn Gŵyl y Banc cyntaf ym mis Mai. Roedd y buddsoddiad hyn yn 20K.

(vii) Yng nghyswllt **materion cyffredinol,** bod pont droed i Fryn Llestair wedi ei thrwsio ond angen gwaith atgyweirio pellach arni. Nodwyd na fyddai’n bosibl ariannu pont newydd o gyllideb refeniw'r Uned Forwrol ac y byddai angen dod o hyd i ffynonellau ariannu eraill.

Mewn ymateb i’r uchod, nododd aelod bod y bont yn atyniad i ymwelwyr ac yn ffodus nad oedd unrhyw ddamwain wedi digwydd yn y gorffennol oherwydd ei chyflwr.

Nodwyd:

- Hyderir y gellid ymestyn y sustem rac cadw cychod gweini erbyn diwedd Ebrill 2008.
- Y bydd y gwaith o glirio’r tywod o’r llithrfa ac ardal y jeti yn cychwyn ddechrau mis Mawrth eleni
- Bod cerbyd patrol newydd wedi ei brynu ar gyfer Aberdyfi i sicrhau bod glannau De Meirionnydd yn cael eu gwasanaethu ac roedd y buddsoddiad hyn yn yr harbwr yn 18K.
- Bod swm sylweddol o gyffuriau wedi eu golchi i’r lan yn Nhywyn a chynghorir y cyhoedd i fod yn wyliadwrus wrth gerdded ar hyd y traethau ac i hysbysu’r Heddlu os gwelir unrhyw weithgareddau amheus

(viii) yng nghyswllt **y digwyddiad yn Aberdyfi** ar 22 Awst 2007 cyflwynwyd adroddiad er gwybodaeth i’r aelodau a gofynnwyd iddynt dderbyn a nodi’r cynnwys.

**Penderfynwyd:- Derbyn a nodi cynnwys adroddiad y Pen Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig.**

4. **MATERION I'W HYSTYRIED AR GAIS AELODAU O'R PWYLLGOR YMGYNGHOROL**

**Adroddwyd:** Gan aelod Clwb Cychod Aberdyfi eu dymuniad fel Clwb i'r Gwasanaeth Morwrol ystyried yr isod:

(a) gwella cyfleusterau lansio yn Bae'r Eglwys
(b) dynodi ardal benodol ar gyfer cychod pŵer ar wahân i weithgareddau eraill
(c) darparu cyfleusterau golchi cychod

Mewn ymateb, eglurodd y Swyddog Morwrol ei bod yn anodd oherwydd diffyg cyllideb ond gellid ystyried prosiectau realistig fel bo modd cyflwyno bid am arian o ffynonellau eraill. Nodwyd nad oedd cyflenwad dwr ar gael mewn harbyrau eraill y Sir oherwydd costau uchel i'w gyflenwi a'i gynnal. Awgrymwyd y byddai o fudd i'r Clwb Cychod ddarparu rhestr gychwynnol o welliannau y dymunent weld yn yr Harbwr i'w cyflwyno i'r Uned Forwrol er ystyriaeth bellach gyda'r gobaith o gyflwyno ceisiadau am grant.

**Penderfynwyd: Gofyn i'r aelod sy'n cynrychioli'r Clwb Cychod drafod gyda'i gyd-aelodau o'r posibilrwydd iddynt dynnu fyny rhestr o welliannau realistig er ystyriaeth bellach gan yr Uned Forwrol er cyflwyno ceisiadau am grant i wireddu gwelliannau posibl.**

5. **DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

Adroddwyd y cynhelir y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor hwn ar ddydd Mawrth, 21 Hydref 2008.

**Penderfynwyd Derbyn a nodi'r uchod.**

6. **DIOLCH**

**Adroddwyd:** Gan yr Is-gadeirydd ei fod ar ddeall mai hwn fyddai cyfarfod olaf y Cadeirydd, sef y Cynghorydd Bill Bracewell, yn sgil ei benderfyniad i beidio sefyll etholiad lleol ym mis Mai. Talwyd teyrnged iddo gan yr Is-gadeirydd yn ei rôl fel Cadeirydd y Pwyllgor Ymgynghorol hwn, fel morwr profiadol 'roedd ei wybodaeth eang wedi bod o fudd eithriadol i'r Pwyllgor hwn ar hyd y blynyddoedd y bu'n gwasanaethu arno. Ategwyd hyn gan yr holl aelodau gan ddiolch a dymuno'n dda iddo i'r dyfodol.

Ymatebodd y Cynghorydd Bracewell drwy ddweud ei fod wedi mwynhau ei gyfnod yn fawr iawn yn gwasanaethu'r Pwyllgor hwn a diolchodd i'w gyd-aelodau a'r swyddogion am y geiriau caredig.

**CADEIRYDD**